# Rhyfeloedd y Rhosynnau
Rhan 2

Crewyr Cadw: Comics




Cyfarwyddwr Celf: Nick Price
Inclwr: Lewis Macaulay
Cynhyrchwyd gan: Turnip Starfish Limited

# Rhyfeloedd y Rhosynnau Rhan 2


Crewyr Cadw: Comics




Dw i wedi clywed sïon nad yw'r Brenin Edward yn iach,
a'i fod wedi cyhoeddi mai ei frawd Rhisiart fydd Amddiffynnwr ei fab ifanc.
SWISH


Dw i ddim yn amau hynny.
Dydw i ddim yn ymddiried mewn Rhisiart. Os gallai wneud i'w nai ddiflannu, byddai'n cipio'r goron iddo'i hun!!


Rhaid i ni ddechrau cynllunio...
...ymosod!
Yng Nghymru mae ein gwreiddiau Harri, ac i Gymru mae'n rhaid i ni ddychwelyd!!


Erbyn mis Ebrill 1483, roedd Edward IV, brenin Lloegr, wedi marw. Câi ei fab 12 oed, a oedd hefyd wedi'i enwi'n Edward, ei goroni'n Edward V, ond ymhen dau fis roedd wedi cael ei lofruddio ynghyd â'i frawd Rhisiart.
Erbyn mis Mehefin 1483, coronwyd eu hewythr Rhisiart yn Rhisiart III.
Nid yw pobl yn ymddiried mewn Rhisiart. Mae'r amser wedi cyrraedd i ddychwelyd i Gymru ac i orymdeithio i Loegr ac ymladd dros y goron.
Pan fyddaf yn hawlio'r goron, gwnaf i briodi Elisabeth o Deulu Iorc. Rhoddaf ddiwedd ar Ryfel y Rhosynnau ac uno Teulu Lancastr a Theulu Iorc.
Rwy'n siŵr y bydd Elisabeth yn derbyn, wedi'r cwbl mae pawb yn credu bod ei hewythr Rhisiart wedi lladd ei brodyr.
Hwyliodd Harri a Siasbar i Sir Benfro yn neheubarth Cymru yn 1485. Roedd Cymru wedi bod yn gadarnle i'r Lancastriaid erioed. Erbyn mis Awst, roedd wedi casglu byddin o 5,000 o ddynion ac wedi cychwyn am Lundain.


Mae negesydd wedi cyrraedd. Mae'r Brenin Rhisiart yn cynllunio i ymosod arnom yn agos i Market Bosworth yn Swydd Gaerlŷr.
Gadewch i Iarll Rhydychen arwain ein byddin - efe sydd â'r mwyaf o brofiad.
Erbyn diwedd y dydd heddiw byddaf yn frenin!
Heddiw, gwnaf i chwalu'r Tuduriaid hyn unwaith ac am byth!
Mae gan Rhisiart fwy o filwyr na ni, f'arglwydd!
Gad i ni weld beth a ddaw heddiw...
Brenin Rhisiart, mae mwy o filwyr gennym ni na nhw!
Ni biau'r frwydr... ond beth mae byddin yr Arglwydd Stanley yn ei wneud ar y bryn yna? Dywedwch wrtho ymosod ar luoedd Harri!
Torrodd Iarll Rhydychen don ymosod gyntaf byddin Rhisiart.
Help! Rhedwch!
Rhedwch!
Ceisiodd y Brenin Rhisiart ladd Harri Tudur ei hun gan ruthro i'r frwydr!
GYDA FI!
Newidiodd byddin yr Arglwydd Stanley ochr hanner ffordd drwy'r frwydr er mwyn helpu Harri Tudur. Lladdwyd y Brenin Rhisiart III yn ystod y frwydr.
Coronwyd Harri Tudur yn Harri VII, brenin Lloegr.
Priododd y Brenin Harri VII Elisabeth o Deulu Iorc. O'r diwedd, unwyd rhosyn coch Teulu Lancastr a rhosyn gwyn Teulu Iorc. O'r diwedd, ar ôl 32 o flynyddoedd, daeth Rhyfel y Rhosynnod i ben.

# Dysgu pellach i bawb



Adnoddau addysgiadol pellach, teithiau digidol, ffilmiau treftadaeth 15 munud a syniadau ar gyfer prosiectau dysgu, yn cynnwys lliaws o gomics a gweithgareddau celf comics, ar gael ar ein gwefan: Cadw.llyw.cymru/dysgu

Dod o hyd i le i'w ymweld
**Cadw.llyw.cymru/ymweld**

Cof Cymru
Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru
**cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru**

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Rhestr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru
**rcahmw.gov.uk/discover/list-of-historic-place-names**

Coflein - Catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau, treftadaeth ddiwylliannol ac arforol yng Nghymru
**Coflein.gov.uk**

Archwilio
Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol Cymru
**Archwilio.org.uk**

Dod o hyd i adnoddau dysgu Cadw a nifer o sefydliadau eraill celfyddydol, treftadaeth a diwylliannol ar Hwb
**Hwb.cymru**

**@CadwWales**

**@CadwWales**

**@CadwCymruWales**